# Datblygu eich cwestiwn ymchwil

## gyda'r Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

*Mae'r Ganolfan Dystiolaeth, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2023, yn gwneud gwaith ymchwil* ***cyflym, perthnasol a thrylwyr*** *i lywio penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth mewn polisi ac ymarfer yng Nghymru.*

*Mae wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.*

Mae angen cynnwys **rhanddeiliad** penodol sy'n ymgysylltu drwy gydol y broses adolygu.

**Beth mae 'rhanddeiliad' yn ei olygu i ni?**
Ein rhanddeiliaid yw'r bobl sy'n penderfynu ar bolisi, iechyd a gofal cymdeithasol sy'n dod atom gyda chwestiwn ymchwil neu angen am dystiolaeth.

Mae'r rhanddeiliad ynghlwm wrth bob cam o'r ymchwil a'r broses benderfynu er mwyn sicrhau bod ein hymchwil yn cael ei **chyd-greu ac yn effeithiol.**

- Byddwn yn gweithio gyda chi i ddeall manylion a hanfodion eich angen am dystiolaeth, ac yn eich helpu i ddatblygu cwestiwn ymchwil â ffocws ar hyn.
- Byddwn yn dynodi eich cwestiwn i un o'n 4 o dimau ymchwil arbenigol a fydd yn ysgrifennu **adroddiad yn crynhoi'r lenyddiaeth academaidd rhyngwladol** ar eich pwnc.
- **Byddwn yn eich cefnogi drwy gydol y broses** i sicrhau bod yr ymchwil wedi'i halinio â'ch blaenoriaethau a'ch angen am dystiolaeth.
- Mae gennym arbenigwyr Gwybodaeth, Cymhwyso ac Effaith a fydd yn gweithio gyda chi i gynllunio'r broses o rannu a gweithredu canfyddiadau eich adolygiad.

Gelwir hyn yn **adolygiad cyflym** a fydd yn dod i ben o fewn 3-4 mis o'r cyfarfod 'cyflwyno' cyntaf.

## Beth yw cwestiwn ymchwil da?

Mae'r canlynol yn bwysig:

**PERTHNASOL** | Mynd i'r afael â phroblem benodol o ran penderfyniad, yn hytrach na rhywbeth 'da i wybod'.

**Â FFOCWS** | Mae ganddo baramedrau clir, megis poblogaeth, ymyrraeth neu ddeilliant o ddiddordeb penodol.

**GALLU GWEITHREDU** | Mae modd ei ddefnyddio i lywio dogfen bolisi penodol neu gynllun gweithredu strategol.

## Pethau allweddol i'w hystyried wrth ddatblygu eich cwestiwn

**Beth yw eich 'angen am dystiolaeth'?**
Beth sydd angen i chi ei wybod?
Pa dystiolaeth fyddai'n helpu i lywio'ch proses benderfynu?

Gallech chi ddechrau gyda chwestiwn ymchwil eang, ond sylwch **y mwyaf penodol allwch chi fod, y gorau.**

Pa **effaith** fyddai'r dystiolaeth yn ei chael?
Oes gennych chi **bolisi, cynllun cyflawni gwasanaeth neu ddogfen ganllaw i'w llywio?**

Pwy yw eich **grŵp o ddiddordeb** a beth ydych chi eisiau cael gwybod amdanyn nhw, yn benodol?

Yw eich cwestiwn yn berthnasol i **leoliad neu faes iechyd penodol, neu ofal cymdeithasol?**

Sut mae eich cwestiwn yn berthnasol i iechyd a gofal pobl **Cymru?**

A oes unrhyw **ymyriadau** penodol yr hoffech chi ddysgu mwy amdanynt?

Ydych chi wedi chwilio am wybodaeth berthnasol sydd eisoes yn bodoli?

Bydd amlygu unrhyw lenyddiaeth sydd eisoes yn bodoli ar eich pwnc (megis dogfennau polisi neu adroddiadau'r llywodraeth) yn ddefnyddiol iawn i'r tîm.

Sut fyddai canfyddiadau'r astudiaeth yn cael eu defnyddio yn ymarferol?

Oes gennych chi unrhyw gysylltiadau allweddol yr hoffech chi eu cynnwys?

A oes unrhyw grwpiau penodol a allai fod â diddordeb yn y gwaith?

Pa feysydd polisi eraill fydd â diddordeb yn y cwestiwn hwn?

A oes unrhyw ddeilliannau neu fanteision penodol yr hoffech chi eu cyflawni gyda chanfyddiadau'r astudiaeth?

**Enghraifft o gwestiwn eang**
Sut gallwn ni fynd i'r afael ag allgau digidol ynghylch gofal cymdeithasol?

**Enghraifft o gwestiwn â ffocws**
Pa mor **effeithiol** yw **ymyriadau** i fynd i'r afael ag allgau digidol ymysg **oedolion hynach**?

**Terfynau amser**
Cofiwch ystyried erbyn pryd y bydd angen y wybodaeth arnoch chi.

I gael rhagor o wybodaeth a thrafod eich anghenion gyda'r tîm, cysylltwch drwy e-bostio:
**healthandcareevidence@cardiff.ac.uk**